Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 27 / 06 / 2023 |
| **Amser** | 9.15 tan 11.15 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Aelodau** | Claire Armistead (CA - Ysgol Uwchradd y Rhyl, (Cadeirydd) Mark Hatch (MH) – Dinas Brân, Helen Vernon (HV) – Bodnant, Colette Owen (CO) – Esgobaeth, Neil Foley (NF) – Ysgol Uwchradd Prestatyn, Nicola Griffiths (NG) – Pendref, Rhona O'Neill (RO) – Tir Morfa, Glen Williams – Ysgol Uwchradd Dinbych (AW), Geraint Davies (Pennaeth Addysg), Lindsey Davenport (LD) Is-Gadeirydd – Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd, y Cynghorydd Gill German (GG) – Aelod Arweiniol Addysg, Bethan Fell (BF) – y Gwernant, Sian Alwen (SA - Ysgol Glan Clwyd), Trefor Jones (Brynhyfryd), Glenw Williams (Ysgol Uwchradd Dinbych) |
| **Nad ydynt yn Aelodau** | Craig Joyce (CAJ) - Rheolwr Ariannu Ysgolion, Cathy Howatson (CH) (Cofnodi), Steve Gadd (SGADD) - Pennaeth Cyllid, Paul Senior (Prif Swyddog Sicrwydd Ariannol), Ruth Thackray (Prif Reolwr Addysg) |
| **Ymddiheuriadau** | y Cynghorydd Gill German, Rona Jones (Emmanuel). |

## 1. Croeso

Croesawodd CA y grŵp.

**Roedd 13 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.**

## 2. Materion yn codi a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Dim materion yn codi.  Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf gan y fforwm.

## 3. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllideb 2024/25 – Steve Gadd

Mynychodd SG y cyfarfod.   Mae ansicrwydd ynghylch y cyllidebau, ac rydym yn rhagweld diffyg sylweddol ar gyfer 24/25.

Dywedodd SG yn y cyfarfod blaenorol bod chwyddiant yn uchel a bod costau yn cael eu gwthio gan hyn, mae cynnydd mewn cyflogau yn cael effaith.

Gyda'r codiadau cyflog ni fydd ein system graddfa gyflog yn bosibl, a byddwn yn edrych ar golli nifer o raddfeydd isel yn y strwythur. Gallai hyn achosi problemau gyda'r bwlch cyflog yn symud drwy'r graddfeydd.

Mae pwysau o'r gwasanaethau plant a gofal cymdeithasol.

Yn 2019-20 roedd rhaid i ysgolion wneud 2% o arbedion effeithlonrwydd, yna 1% ar gyfer y 2 flynedd ganlynol, a dim yn 2022/23, ond bellach mae trafodaethau yn cael eu cynnal ar gyfer 2024/25. Gallai'r ystod ddangosol fod yn 2% i 5% i ysgolion. SG i siarad am y gwaith gyda GD a rheolwyr Ariannol i edrych ar ragdybiaethau. Mae SG yn eglur nad oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud hyd yma, ond bydd papurau yn cael eu cyflwyno i'r cabinet.
Gofynnodd CA pryd fyddwn yn cael gwybod?
SG - gobeithir ym mis Medi. Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau swm dangosol hefyd. Awgrymodd SG bod CAJ yn cynnwys 3% o arbedion i'w cynnwys wrth gyfrifo cyllidebau dangosol.

Mae treth y cyngor yn debygol o gynyddu gan mai ni yw un o'r rhai isaf yng Nghymru.

Ynni - mae SG yn cyfarfod heddiw gyda'r tîm ynni i edrych ar effeithiau costau a monitro ar ysgolion a gwasanaethau hamdden. Roedd cronfeydd wrth gefn ar gyfer cynyddiadau cost ynni.

## 4. Pot Trosglwyddo ADY

Mae GD a RT wedi cynhyrchu adroddiad ar gyfer y grŵp. Y llynedd, cafodd 13 o geisiadau eu cymeradwyo ac roedd cyfanswm y pot yn £125,000.

**CAM GWEITHREDU - CH i rannu adroddiad.**

## 5. Cynlluniau Cyfun

Yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion diwethaf, roedd y cynlluniau cyfun wedi adrodd bod gorwariant o £400,000. Cytunwyd i gael gweithgor i edrych ar y costau o absenoldeb salwch.

Mae'r gweithgor wedi cyfarfod ac wedi cytuno bod angen mwy o ddata cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Bydd CH a CAJ yn gweithio ar hwn a byddwn yn cyfarfod eto ym mis Medi i gynhyrchu canfyddiadau cyn Fforwm Cyllideb Ysgolion nesaf ym mis Hydref.

## 6. Cylch Gorchwyl

Anfonwyd y cylch gorchwyl gyda'r gwahoddiad i'r grŵp eu trafod. Mae CH yn diweddaru aelodau yn rheolaidd am unrhyw newidiadau.

## Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

Gofynnodd LD os yw aelodau'r Awdurdod Lleol yn gorfod bod yn bobl sydd yn mynychu ar hyn o bryd - gwiriodd CAJ y Cylch gorchwyl a chadarnhaodd mai aelodau'r cyngor yw Aelod Arweiniol Addysg, Pennaeth Addysg a Phennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151).

**7. Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Cytunwyd gan y fforwm bod y Cadeirydd cyfredol - Claire Armistead ac Is-gadeirydd - Lindsey Davenport yn parhau am y 12 mis nesaf.

### 8. Materion Clwstwr

Dim

### 9. Unrhyw Fater Arall

Dim

Cynigiodd CA i'r rhai oedd yn hwyr i'r cyfarfod i aros i drafod y newyddion diweddaraf ar gyllideb SG.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf - I'w gadarnhau**